# Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru

# Strategaeth Gyfathrebu

Dyddiad Cymeradwyo: 25 Tachwedd 2013

Cymeradwywyd gan: Owen Watkin

Dyddiad Adolygu: Ionawr 2015

# Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru

# Strategaeth Gyfathrebu

## Cynnwys

**Cyflwyniad .......... 1**
**Diagram Cyfathrebu .......... 3**
**Rhan Un: Ymgysylltu â'r Cyhoedd .......... 4**
**Rhan Dau: Partïon â Buddiant .......... 9**
**Rhan Tri: Cynghorau Tref a Chymuned .......... 9**
**Rhan Pedwar: Prif Gynghorau .......... 12**
**Rhan Pump: Aelodau Seneddol ac Aelodau'r Cynulliad .......... 16**
**Rhan Chwech: Cyrff Cynrychiadol Llywodraeth Leol .......... 18**
**Rhan Saith: Llywodraeth Cymru .......... 20**
**Rhan Wyth: Monitro a gwerthuso .......... 22**
**Adolygu'r Strategaeth .......... 23**

**Ionawr 2014**

*Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru*
*Tŷ Hastings*
*Llys Fitzalan*
*CAERDYDD*
*CF24 0BL*

*Rhif Ffôn: (029) 2046 4819*
*Rhif Ffacs: (029) 2046 4823*
*E-bost cffdl.cymru@cymru.gsi.gov.uk*
*www.cffdl-cymru.gov.uk*

# Cyflwyniad

## Y Comisiwn

1. Cafodd Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (y Comisiwn) ei sefydlu ym 1974 a'i ailenwi o dan delerau Rhan 2 Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013. Mae'r Ddeddf 2013 hon yn disodli Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd. Caiff swyddogaethau statudol y Comisiwn eu pennu yn Rhannau 3 a 4 o Ddeddf 2013 (cyfeirir at Ddeddf 2013 yn y ddogfen hon fel 'y Ddeddf'). Wrth gynnal arolygon, mae Adran 35 y Ddeddf yn mynnu bod y Comisiwn yn ymgynghori: â'r ymgyngoreion statudol a'r cyfryw bersonau eraill y mae o'r farn eu bod yn briodol.

2. Diben y Comisiwn yw:

   **Monitro'r ardaloedd a'r trefniadau etholiadol sy'n berthnasol i lywodraeth leol yng Nghymru at y diben o ystyried pa un a yw'n briodol i wneud neu argymell newidiadau. Wrth gyflawni ei ddyletswyddau mae'n rhaid i'r Comisiwn geisio sicrhau llywodraeth leol effeithiol a chyfleus.**

## Diben y strategaeth gyfathrebu

3. Mae'r strategaeth yn amlinellu sut y bydd y Comisiwn yn defnyddio ei gapasiti cyfathrebu a materion cyhoeddus i sicrhau ei fod:

   - Yn bodloni ei rwymedigaeth statudol i ymgynghori'n gyhoeddus fel rhan o'i waith arolwg.
   - Yn annog cyflwyno tystiolaeth o ansawdd uchel i gynorthwyo â'i benderfyniadau.
   - Yn hyrwyddo perthnasoedd cadarnhaol ac adeiladol â phartneriaid sy'n dylanwadu ar waith y Comisiwn ac yn gwella bodlonrwydd cwsmeriaid.

4. Mae'r strategaeth yn targedu saith cynulleidfa (y cyhoedd, partïon â buddiant, prif gynghorau, cynghorau tref a chymuned, Aelodau Seneddol ac Aelodau'r Cynulliad, cyrff cynrychiadol llywodraeth leol a Llywodraeth Cymru). Y saith grŵp hwn gyda'i gilydd yw rhanddeiliaid y Comisiwn. Diben dull gweithredu sy'n seiliedig ar gynulleidfaoedd yw sicrhau bod ei weithgareddau cysylltiedig yn cynnwys ffocws a bod negeseuon, cyngor a gwybodaeth y Comisiwn yn cael eu cyfleu yn y ffordd fwyaf priodol i bob amgylchiad arbennig.

5. Prif ran o waith y Comisiwn yw cynnal arolygon etholiadol o'r prif gynghorau. Mae'r cyfeiriadau at waith arolwg yn y ddogfen hon yn ymwneud yn benodol ag arolygon etholiadol, ond mae llawer ohonynt yn gymwys hefyd i arolygon o ffiniau prif gynghorau.

## Pwysigrwydd y strategaeth cysylltiadau allanol

6. Mae ansawdd perthnasoedd y Comisiwn gyda'i sefydliadau partner ac effeithiolrwydd ei gyfathrebu gydag aelodau'r cyhoedd yn hollbwysig o ran cyflawni ei amcanion.

## Rhwymedigaeth statudol

7. Ar gyfer arolygon etholiadol, sirol a chymunedol, rhaid i'r Comisiwn gyhoeddi ac ymgynghori ar agweddau ar arolygon. Yn benodol, mae rhwymedigaeth ar y Comisiwn i:

   (a) gyhoeddi'r adroddiad yn electronig,
   (b) sicrhau bod yr adroddiad ar gael i'w archwilio (yn ddi-dâl) yn swyddfeydd unrhyw brif gyngor sydd â buddiant yn yr arolwg yn ystod y cyfnod cynrychiolaethau,

(c) anfon copïau o'r adroddiad at Weinidogion Cymru ac ymgyngoreion gorfodol,
(ch) hysbysu unrhyw unigolyn arall a gyflwynodd dystiolaeth i'r corff yn cynnal arolwg sut i gael copi o'r adroddiad, a
(d) gwahodd cynrychiolaethau a hysbysu'r unigolion a grybwyllir yn (c) ac (ch) am y cyfnod cynrychiolaethau.

**Tystiolaeth**

8. Mae'r Comisiwn o'r farn yr effeithir ar ansawdd ei argymhellion gan ansawdd y cynrychiolaethau a wneir gan brif gynghorau, cynghorau tref a chymuned, sefydliadau lleol ac aelodau unigol o'r cyhoedd. Trwy roi cyhoeddusrwydd effeithiol i arolygon a darparu'r wybodaeth gywir i bob parti â buddiant, gall y staff a chomisiynwyr annog penderfyniadau o ansawdd uchel.

**Perthnasoedd**

9. Gall ansawdd perthynas y Comisiwn gyda phrif gynghorau a sefydliadau partner bennu effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd arolwg. Drwy ymgysylltu'n gynnar â phrif gynghorau a bod yn glir ynglŷn â'r cyfleoedd sydd ynghlwm wrth arolwg, mae cynghorau'n fwy tebygol o ddarparu cydweithrediad a gwybodaeth yn amserol ac yn gywir. Yn ogystal, lle mae prif gynghorau'n ymwneud yn llawn ag arolwg, mae eu tystiolaeth yn debygol o fod yn fwy allweddol na thystiolaeth cyngor nad yw'n ymgysylltu â phroses arolwg.


**Enw Da**

10. Ffactor pwysig arall sy'n dylanwadu ar allu'r Comisiwn i gyflawni ei waith yn effeithiol yw ei enw da yng ngolwg ei randdeiliaid. Un o nodau'r strategaeth hon felly yw cyflawni ac yna cynnal enw da cadarnhaol ymhlith pob un o'i randdeiliaid.

11. Caiff y Comisiwn ei noddi gan Is-adran Democratiaeth, Moeseg a Phartneriaeth Llywodraeth Cymru. Mae'r Comisiwn yn destun Adolygiadau Polisi cyfnodol sy'n darparu canllawiau strategol a pholisi tymor canolig ar gyfer Cynllun Gweithredol blynyddol y Comisiwn. Mae'r Cynllun Gweithredol yn ystyried y llythyr cylch gwaith blynyddol a gyhoeddir gan Weinidog Llywodraeth Cymru. Er bod y Comisiwn yn darparu cyngor annibynnol i Lywodraeth Cymru, mae'n uniongyrchol atebol i Lywodraeth Cymru fodd bynnag, a Llywodraeth Cymru sy'n cytuno Cynllun Gweithredol a chyllideb y Comisiwn ac mae'n goruchwylio gweithgareddau'r Comisiwn. Mae'n rhaid iddo felly sicrhau bod Llywodraeth Cymru'n hyderus ei fod yn cyflawni ei amcanion yn effeithlon ac yn deg a'i fod yn sicrhau gwerth am arian. Bydd gan gyrff eraill fel CLlLC a'r gymuned llywodraeth leol ehangach gyfraniad sylweddol i'w wneud o ran a yw'r Comisiwn yn gallu cyflawni ei amcanion. At hynny, mae'r Comisiwn yn ymdrechu i adeiladu a chynnal enw da cadarnhaol gyda phob un o'r sefydliadau a'r unigolion y mae'n gweithio â nhw ac yn darparu gwasanaeth iddynt.

**Gwerthoedd**

12. Mae'r Strategaeth Gyfathrebu hon yn arddel gwerthoedd arweiniol y Comisiwn, sef **annibyniaeth, tegwch, cadernid, tryloywder** a **chwarae teg.**



- Hysbysu am yr amserlen arolygon
- Gofyn am wybodaeth
- Briffio cychwynnol
- Ymgynghori ar gynigion
- Cadw cysylltiad
Prif Gynghorau
Cynghorau Tref a Chymuned
- Hysbysu am yr amserlen arolygon
- Ymgynghori ar gynigion
- Hysbysu am yr amserlen arolygon
- Ymgynghori ar gynigion
ACau ac ASau
CFfDLC
Cyrff Llywodraeth Leol
- Hysbysu am yr amserlen arolygon
- Ymgynghori ar gynigion
Arolwg
Ymgynghori
Hysbysu
Adrodd
Y Cyhoedd
Partïon â Buddiant
Llywodraeth Cymru
- Hysbysu am yr amserlen arolygon
- Ymgynghori ar gynigion
- Hysbysu am yr amserlen arolygon
- Ymgynghori ar gynigion
- Hysbysu am yr amserlen arolygon
- Adrodd am y cynigion
- Ymgynghori ar bolisi

## Rhan Un: Ymgysylltu â'r cyhoedd

**Amcan:** Defnyddio'r sianelau cyfathrebu mwyaf priodol i hysbysu'r cyhoedd am arolwg a darparu'r arweiniad a'r wybodaeth gywir i'w galluogi i gyfrannu'n effeithiol ato.

**Prif neges:** *Pobl leol sy'n adnabod eu hardal orau. Cred y Comisiwn mai'r ffiniau cadarnaf a'r trefniadau etholiadol gorau yw'r rheiny lle mae aelodau'r cyhoedd wedi gallu gwneud cyfraniad ystyrlon at yr arolwg.*

**Mesur llwyddiant:** Lefelau uwch o ran cyflwyniadau a bodlonrwydd y cyhoedd.

---

1. Mae'r Comisiwn wedi ymrwymo i sicrhau y gall pobl leol gael dylanwad aruthrol ar y broses cynnal arolygon. Bydd pob arolwg yn cynnwys o leiaf un cyfnod estynedig o ymgynghori cyhoeddus, a bydd y Comisiwn yn ystyried pob cyflwyniad ar ei rinweddau ni waeth gan bwy y mae.

2. Yn ychwanegol at ei rwymedigaethau statudol i roi cyhoeddusrwydd i'r arolwg, cred y Comisiwn fod ei argymhellion – yn enwedig o ran hunaniaeth gymunedol – yn gadarnach lle mae wedi derbyn tystiolaeth o ansawdd uchel. Gallai hon ddod o ystod eang o ffynonellau ond mae barnau pobl leol yr effeithir yn uniongyrchol arnynt gan yr arolwg yn gaffaeliad arbennig.

**Hysbysu**

3. Yn y lle cyntaf dylai deunydd cyhoeddusrwydd y Comisiwn roi trosolwg o'r arolwg ac wedyn mynd ati i sianelu cynulleidfaoedd at wefan y Comisiwn i gael mwy o wybodaeth am ffyrdd o ddarparu barnau a thystiolaeth. Bydd y Comisiwn yn chwilio'n gyson am ffyrdd i wella cynnwys a hygyrchedd ei wefan.

4. Dylai'r Comisiwn fynd ati i ddefnyddio'r sianelau canlynol i gyrraedd ei gynulleidfa gyhoeddus:

   <u>Marchnata gan Brif Gynghorau:</u> Mae ymchwil gan awdurdodau lleol yn Lloegr yn awgrymu bod deunydd cyhoeddusrwydd cynghorau eu hunain yn aml yn llwyddo i dreiddio ar lefelau uwch na chyfryngau print traddodiadol wrth ledaenu gwybodaeth am faterion lleol. Dylai'r Comisiwn felly geisio cynnwys cyhoeddusrwydd ym mhapur newydd / cylchgrawn rheolaidd y cynghorau eu hunain fel y bydd yr amserlen arolygon yn caniatáu, a thrafod lleoliad negeseuon y Comisiwn yn ystod y cyfnod rhagarweiniol.

   <u>Cyfryngau print</u>: Bydd y Comisiwn yn darparu datganiadau i'r wasg yn ystod pob cam o'r arolwg ac yn ystyried darparu naratif cyson i gyfryngau print (e.e. 'pedair wythnos ar ôl i ddweud eich dweud') er mwyn cynnal diddordeb a momentwm. Yr arfer blaenorol oedd cynhyrchu datganiadau i'r wasg o dempled ac roedd ffeithiau sylfaenol yn unig am y cynigion yn cael eu hychwanegu. Ystyrir y gellid gwella ymdriniaeth yn y cyfryngau drwy gynhyrchu datganiadau newyddion sydd wedi'u teilwra'n well at yr arolwg penodol.

   <u>Cyfryngau cymdeithasol</u>: Bydd y Comisiwn yn trydar ac yn diweddaru ei dudalen Facebook yn ystod pob cam o'r arolwg a bydd yn darparu naratif cyson (e.e. 'pedair wythnos ar ôl i ddweud eich dweud') er mwyn cynnal diddordeb a momentwm. Bydd y Comisiwn yn ceisio cynnwys ei

gyhoeddiadau ar dudalen Facebook a chyfrifon Twitter cyngor ei hun yn ystod pob cam o gyfnod yr arolwg.

Ni fydd y Comisiwn, ar hyn o bryd, yn derbyn cynrychiolaethau trwy lwyfan cyfryngau cymdeithasol. Bydd unrhyw gynrychiolaethau a anfonir at y Comisiwn yn cael eu hail-gyfeirio at wefan y Comisiwn.

Radio lleol / rhanbarthol a'r teledu: Yn ystod pob cam o'r ymgynghoriad, dylai'r Comisiwn roi gwybod i orsafoedd radio lleol am y cyfle i gyfweld â'r Cadeirydd neu lefarydd ar ddiwrnod y lansiad trwy ei ddatganiad i'r wasg. Lle gwneir cais am gyfweliad Cymraeg, gwneir hyn gan y Comisiynydd sy'n siarad Cymraeg (neu'r Comisiynydd dynodedig os oes mwy nag un yn siarad Cymraeg).

Marchnata Uniongyrchol: Mae'r Comisiwn yn darparu hysbysiadau i lyfrgelloedd a chynghorau cymuned ar gyfer pob set o gynigion drafft a chynigion terfynol. Dylai'r Comisiwn sicrhau hefyd fod deunydd arweiniad yn cael ei ddarparu ar ffurf copi caled pan wneir cais. Dylid ystyried hefyd bod mapiau ac adroddiadau yn ffurf o farchnata uniongyrchol a ddylai roi gwybodaeth i aelodau'r cyhoedd a'u harwain.

**Arwain**

5. Pan fydd pobl leol wedi cael gwybod am yr arolwg a'r cyfleoedd i gyfrannu, dylid rhoi'r cyngor cywir iddynt er mwyn gallu cyfrannu'n effeithiol. I'r perwyl hwnnw, dylai gwefan y Comisiwn ddarparu:

- Mapiau a gwybodaeth etholiadol ar gyfer ardal yr arolwg dan sylw er mwyn galluogi aelodau'r cyhoedd a grwpiau i lunio eu cynigion eu hunain.
- Arweiniad ynglŷn â chynnal y mathau amrywiol o arolygon.

6. Mae aelodau'r cyhoedd yn debygol o ddechrau proses yr arolwg gyda lefelau gwybodaeth isel am rôl y Comisiwn, y broses cynnal arolwg a ffyrdd i gyfrannu. Mae'n hanfodol felly sicrhau ei fod yn darparu arweiniad sy'n glir, yn hawdd ei ddeall ac yn adlewyrchu lefel wybodaeth a diddordeb y gynulleidfa debygol.

**Cod ymarfer ar ymgynghori**

7. Mae'r Comisiwn wedi ymrwymo i gadw at god ymarfer y Llywodraeth ar ymgynghori. Rhestrir isod saith egwyddor y cod, ac mewn italig, nodir y ffyrdd y bydd ymgynghoriad cyhoeddus y Comisiwn yn ceisio eu cydategu. Dylai'r Comisiwn fonitro unrhyw ddiweddariadau i'r cod yn y dyfodol ac ystyried unrhyw newidiadau y dylai eu gwneud i'w arfer ei hun mewn ymateb i hynny.

**Pa bryd i ymgynghori**
Dylai'r ymgynghori ffurfiol ddigwydd ar gyfnod pan fo modd dylanwadu ar ganlyniad y polisi.
*Bydd ymarferiadau ymgynghori'r Comisiwn yn cael eu cynnal cyn ystyriaethau'r Comisiwn o argymhellion.*

**Hyd yr ymarferiadau ymgynghori**
Mae'r Ddeddf yn datgan y dylai ymgynghoriadau fod am gyfnod nid llai na 6 wythnos ac nid mwy na 12 wythnos. Mae'r Comisiwn wedi ymrwymo i ymgynghori am 12 wythnos fel arfer.

*Ar gyfer y rhan fwyaf o arolygon, bydd aelodau'r cyhoedd yn cael cyfanswm o dros 12 wythnos i gyfrannu at broses yr arolwg (mae hyn yn cynnwys y cyfnod cychwynnol a'r cyfnod drafft). Ar gyfer arolygon lle mae'r Comisiwn neu'r Cyngor wedi ymgynghori'n flaenorol ar y cynigion, gellir ystyried cyfnod ymgynghori byrrach.*

**Eglurder cwmpas ac effaith**
Dylai dogfennau ymgynghori fod yn glir ynglŷn â'r broses ymgynghori, beth sy'n cael ei gynnig, y cyfle i ddylanwadu, a chostau a buddion disgwyliedig y cynigion.
*Bydd adroddiadau a dogfennau arwain y Comisiwn yn esbonio'n glir y rhesymau dros gynnal arolwg, ei broses a'r canlyniadau.*

**Hygyrchedd ymarferiadau ymgynghori**
Dylai ymarferiadau ymgynghori gael eu cynllunio i fod yn hygyrch i'r bobl hynny y bwriadwyd i'r ymarferiad eu cyrraedd, a dylent dargedu'r bobl hynny'n glir.
*Mae'r holl wybodaeth berthnasol ar gael ar-lein ac fe'i darperir ar ffurf copi caled i bartïon â buddiant (gweler Rhan Dau). Darperir gwybodaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg.*

**Baich ymgynghori**
Mae'n hanfodol cadw'r baich ymgynghori cyn lleied â phosibl os yw ymgynghoriadau i fod yn effeithiol ac er mwyn i ymgyngoreion fod yn rhan o'r broses.
*Mae natur a chymhlethdod gwaith arolwg y Comisiwn yn golygu nad oes modd yn gyffredinol hwyluso'r baich ar yr ymgyngoreion trwy ddarparu cwestiynau sy'n gofyn am ateb ie / na yn unig. Bydd dogfennau arweiniad arolwg y Comisiwn yn darparu gwybodaeth am y materion sydd i'w hystyried yn ystod yr arolwg.*

**Ymatebolrwydd ymarferiadau ymgynghori**
Dylid dadansoddi ymatebion i ymgynghoriad yn ofalus a dylid rhoi adborth clir i gyfranogwyr yn dilyn yr ymgynghoriad.
*Mae'r Comisiwn yn dadansoddi'r holl ymatebion i ymgynghoriad, yn eu cyhoeddi ac yn rhoi'r un pwyslais arnynt ni waeth pwy a'u cyflwynodd. Mae adroddiadau'n cyfeirio'n uniongyrchol at gyflwyniadau a dderbyniwyd ac yn rhoi rhesymau pam y cânt eu derbyn neu'u gwrthod.*

**Capasiti i ymgynghori**
Dylai swyddogion sy'n cynnal arolygon ofyn am arweiniad ar sut i gynnal ymarferiad ymgynghori effeithiol a dylent rannu'r hyn maent wedi'i ddysgu o'r profiad.
*Bydd y Comisiwn yn ymchwilio i fecanwaith i ddarparu gwerthusiad parhaus o ansawdd a nifer ymatebion i ymgynghoriad ar gyfer pob arolwg (gweler Rhan Wyth).*

## Rhan Un: Ymgysylltu â'r Cyhoedd

| **Amseru / Cam yn yr arolwg** | **Gweithgaredd** | **Allbwn** | **Cyfrifol** |
|---|---|---|---|
| **Y Wasg / Radio / Teledu** | | | |
| Dechrau arolwg | Datganiad i'r wasg i'r cyfryngau lleol yn cyhoeddi dechrau arolwg ac yn gwahodd cynigion.<br><br>Ateb ymholiadau'r cyfryngau. | Cynyddu ymwybyddiaeth am yr arolwg ac annog cyflwyniadau.<br><br>Annog gweithgarwch yn y cyfryngau. | Swyddog Arolygon<br><br>Prif Weithredwr |
| Lansio cynigion drafft | Datganiad i'r wasg i'r cyfryngau lleol yn cyhoeddi dechrau'r ymgynghoriad ar gynigion drafft.<br><br>Ateb ymholiadau'r cyfryngau. | Annog cyflwyniadau.<br><br>Annog gweithgarwch yn y cyfryngau. | Swyddog Arolygon<br><br>Prif Weithredwr neu'r Comisiynydd Arweiniol |
| Pedair wythnos cyn diwedd yr ymgynghoriad ar y cynigion drafft | Llythyr at olygydd cyfryngau lleol yn cyhoeddi mai 'dim ond pedair wythnos sydd ar ôl i ddweud eich dweud' ar y cynigion drafft. | Annog cyflwyniadau pellach. | Prif Weithredwr |
| Cyhoeddi'r cynigion terfynol | Datganiad i'r wasg i'r cyfryngau lleol yn cyhoeddi bod y cynigion terfynol yn cael eu cyhoeddi.<br><br>Ateb ymholiadau'r cyfryngau. | Hysbysu'r cyhoedd am ddiwedd yr arolwg a'r camau nesaf.<br><br>Annog gweithgarwch yn y cyfryngau. | Swyddog Arolygon<br><br>Prif Weithredwr neu'r Comisiynydd Arweiniol |
| **Ar-lein / Cyfryngau Cymdeithasol** | | | |
| Ar ddechrau arolwg a diweddaru trwy gydol arolwg | Creu adran ar dudalen we yn benodol at gyfer pob arolwg a diweddaru hynny trwy gydol y broses.<br><br>Trydar a diweddaru'r dudalen Facebook yn ystod pob cam. Ymateb i gwestiynau ac ymholiadau priodol. | Manylion llawn yr arolwg ar gael i'w harchwilio ac i lywio dadleuon e.e. adroddiadau, mapiau, arweiniad ac ati.<br><br>Hysbysu'r cyhoedd ac annog cyflwyniadau a thrafod. | Swyddogion Arolygon<br><br>Rheolwr Arolygon neu Swyddogion Arolygon |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Adnoddau'r cyngor** | | | |
| Cyn dechrau'r arolwg a / neu gyhoeddi cynigion drafft | Sicrhau gofod ym mhapur newydd / cylchgrawn / safle cyfryngau cymdeithasol y cyngor i hyrwyddo'r arolwg | Cynyddu ymwybyddiaeth am yr arolwg ac annog cyflwyniadau gan y ddemograffeg darged | Swyddog Arolygon i ddarparu copi a thrafod gofod |
| Yn dilyn cyfnod rhagarweiniol yr arolwg | Sicrhau gofod ar wefan y cyngor i hyrwyddo'r arolwg a chysylltu â safle'r Comisiwn | Cynyddu ymwybyddiaeth am yr arolwg ac annog cyflwyniadau | Swyddog Arolygon i ddarparu copi a thrafod gofod |
| **Deunyddiau'r ymgynghoriad** | | | |
| Dechrau ymgynghoriad yr arolwg a'r ymgynghoriad ar y cynigion drafft | Hysbysiadau'n cael eu darparu i lyfrgelloedd a chynghorau cymuned | Cynyddu ymwybyddiaeth am yr arolwg, cyfeirio pobl at y wefan ac annog cyflwyniadau | Swyddog Arolygon |
| Cynigion drafft a chynigion terfynol | Trefnu bod adroddiadau llawn a mapiau ar gael i gynghorau eu dosbarthu a'r cyhoedd trwy lyfrgelloedd a chanolfannau gwybodaeth | Hysbysu pobl leol am fanylion yr argymhellion ac annog cyflwyniadau (ar gyfer cynigion drafft) | Swyddog Arolygon |
| Trwy gydol pob arolwg | Darparu dogfen arweiniad sy'n hawdd ei deall | Annog cyflwyniadau o ansawdd uchel | Prif Weithredwr |
| **Cydraddoldeb ac amrywiaeth** | | | |
| Pob deunydd a gyhoeddir | Pob deunydd ar gael i'w gyfieithu, print bras, darllen yn hawdd a Braille ar gais | Cyflwyno gwybodaeth ac arweiniad sy'n hawdd eu deall | Rheolwr Arolygon a Swyddog Arolygon |

## Rhan Dau: Partïon â buddiant

**Amcan:** Ymgysylltu â grwpiau, unigolion a sefydliadau lleol sydd â diddordeb penodol yn nhrefniadau etholiadol eu hardal a rhoi'r offer iddynt i gyfranogi'n adeiladol yn yr arolwg.

**Prif neges:** *Mae gan grwpiau a sefydliadau lleol amgyffred unigryw o'r ffordd y mae eu cymuned yn gweithredu. Bydd y Comisiwn yn mynd ati i geisio eu barnau fel y gall sefydlu natur hunaniaethau a buddiannau cymunedol a sicrhau eu bod yn cael eu hadlewyrchu yn y trefniadau etholiadol newydd.*

**Mesur llwyddiant:** Lefelau uwch o ran nifer ac ansawdd cyflwyniadau a mwy o fodlonrwydd ymhlith cwsmeriaid.

---

1. Yn ogystal â chyhoeddi manylion pob arolwg yn eang yn y gymuned leol, mae'r Comisiwn yn targedu sefydliadau ac unigolion lleol penodol a allai fod â buddiant yn yr arolwg ac a allai wneud cyfraniad adeiladol yn ystod y broses ymgynghori.

2. Er y bydd yr holl weithgarwch ymgynghori a wneir gan y Comisiwn yn agored i unrhyw un, dylai ei weithgarwch hefyd anelu at geisio barnau – yn arbennig – gan y rheiny sy'n debygol o gael eu heffeithio'n benodol gan yr arolwg a / neu'r rheiny a allai wneud cyfraniad adeiladol at broses yr arolwg.

3. Ar hyn o bryd, mae'r Comisiwn yn ymgynghori'n uniongyrchol â chynghorau cymuned ym mhob ardal arolwg (gweler Rhan Tri) ond mae lle o hyd i ehangu gweithgareddau'r Comisiwn fel bod mwy o grwpiau, sydd â gwybodaeth, arbenigedd a rhwydweithiau lleol yn cael y cyfle i gyfrannu ac ysgogi trafodaeth.

**Targedu**

4. Bydd y Comisiwn yn dibynnu'n drwm ar wybodaeth fewnol gan bob prif gyngor wrth dargedu partïon â buddiant, ond dylai sicrhau ei fod yn cael manylion gan gynghorau yn ystod cam rhagarweiniol yr arolwg am sefydliadau a allai fod â buddiant yn yr arolwg ac y gallai eu rhwydweithiau annog cyflwyniadau pellach.

5. Dylai'r Comisiwn ddefnyddio'r wybodaeth a ddarperir gan brif gynghorau i sefydlu ei restr rhanddeiliaid ei hun cyn cam cyntaf yr ymgynghoriad, a'i gadw trwy gydol yr arolwg drwy ychwanegu grwpiau a sefydliadau ychwanegol lle bo tystiolaeth o'u buddiant mewn arolwg (e.e. o adroddiadau i'r wasg, cyflwyniadau uniongyrchol ac ati). Ym mhob cam o'r ymgynghoriad, dylai aelodau'r rhestr dderbyn gwybodaeth berthnasol am yr arolwg a deunydd arweiniad priodol.

6. Dylai unigolion a grwpiau sy'n ymateb i unrhyw gam ymgynghori gael eu hychwanegu at y rhestr rhanddeiliaid (os nad ydynt arni yn barod) os ydynt yn cyfranogi mewn unrhyw ran o'r arolwg, fel eu bod yn cael gwybodaeth yn ystod cam nesaf yr arolwg ac yn gallu cyfranogi ymhellach felly.

7. Yn ystod yr arolwg, dylai pob grŵp ac unigolyn targed dderbyn – adeg cyhoeddi:

- Copi o ddogfennau arweiniad ar ddechrau arolwg a manylion y cerrig milltir allweddol.
- Yr holl ddatganiadau i'r wasg sy'n gysylltiedig â'r arolwg.
- Copi o gynigion drafft a chynigion terfynol (neu ddolen atynt ar wefan y Comisiwn).

8. Bydd y Comisiwn hefyd yn anelu at ddefnyddio unrhyw rwydweithiau presennol sy'n cael eu cynnal gan gynghorau mewn perthynas ag ymgysylltu cymunedol, fel tudalennau gwe pwrpasol a / neu rybuddion ymgynghori a anfonir yn uniongyrchol at unigolion a grwpiau â buddiant.

9. Bydd y Comisiwn yn ystyried cynnal briffio ar gyfer grwpiau cymdogaeth mewn ardaloedd lle nad oes unrhyw gynghorau cymuned.

**Cydraddoldeb ac amrywiaeth**

10. Mae gan y Comisiwn gyfrifoldeb i sicrhau ei fod yn cadw at ddeddfwriaeth cydraddoldeb fel rhan o gamau ymgynghori a phenderfynu pob arolwg o dan delerau Deddf Cydraddoldeb 2010. Fel y cyfryw, rhaid i'r Comisiwn sicrhau ei fod yn rhoi ystyriaeth briodol i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin perthnasoedd da ar draws yr holl nodweddion gwarchodedig[1].

11. Yn ymarferol, mae'r Ddeddf yn gorfodi cyrff cyhoeddus i gymryd camau rhesymol i:

- Ddileu neu leihau gymaint â phosibl yr anfanteision a ddioddefir gan bobl oherwydd eu nodwedd warchodedig[2].
- Bodloni anghenion pobl o grwpiau gwarchodedig lle mae'r rhain yn wahanol i anghenion pobl eraill.
- Annog pobl o grwpiau gwarchodedig i gyfranogi mewn bywyd cyhoeddus neu mewn gweithgareddau eraill lle mae eu cyfranogiad yn anghymesur o isel.

12. Bydd y Comisiwn yn cymryd camau i sicrhau ei fod yn dileu rhwystrau a allai fod yn bodoli i grwpiau lleiafrifol sy'n dymuno cyfranogi mewn arolwg. Gellir darparu gwybodaeth am arolwg mewn fformatau hygyrch felly er mwyn annog cyfranogiad ehangach.

13. Bydd y Comisiwn hefyd yn ystyried a ddylai gynnal gweithgarwch ymgynghori ychwanegol er mwyn cynnwys grwpiau lleiafrifol yn yr arolwg ar sail achos wrth achos yn seiliedig ar y wybodaeth a gasglwyd yn y cam rhagarweiniol a chyngor gan y cyngor. Trwy fynd ati i gynnwys cyrff cynrychioliadol o grwpiau lleiafrifol a darparu deunydd ymgynghori priodol iddynt yn uniongyrchol, gall y Comisiwn sicrhau ei fod wedi cynnig anogaeth ddigonol i grwpiau lleiafrifol fod yn rhan o'r arolwg. Yn ystod arolwg, er enghraifft, gall fod angen i'r Comisiwn farnu a oes angen iddo wneud gwaith ymgynghori pellach gyda grwpiau penodol drwy grwpiau ffocws, i gomisiynu ymchwil ychwanegol neu trwy ddarparu arweiniad a gwybodaeth ychwanegol i grwpiau a allent fel arall gael eu heithrio o'r broses.

14. Mae'n ofynnol i holl staff y Comisiwn fynychu hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth.

[1] Adran 149, Deddf Cydraddoldeb 2010.
[2] Pennod 1, adran 4, Deddf Cydraddoldeb 2010.

## Rhan Dau: Partïon â buddiant

| Amseru / Cam yn yr arolwg | Gweithgaredd | Allbwn | Cyfrifol |
|---|---|---|---|
| Cam rhagarweiniol | Sefydlu rhestr cysylltiadau rhanddeiliaid ar sail gwybodaeth a ddarparwyd gan y prif gyngor (ei diweddaru trwy gydol yr arolwg) | Cyfeirio'r ymgynghori at grwpiau targed | Swyddog Arolygon |
| Dechrau arolwg | Cyfeirio post a / neu e-bost at holl gynrychiolwyr rhanddeiliaid gan ddarparu dogfennau arweiniad a deunydd cyhoeddusrwydd | Hysbysu grwpiau targed am yr arolwg ac annog cyflwyniadau | Swyddog Arolygon |
| Cyhoeddi cynigion drafft | Cyfeirio post a / neu e-bost at holl gynrychiolwyr rhanddeiliaid gan ddarparu'r cynigion drafft | Annog cyflwyniadau | Swyddog Arolygon |
| Cyhoeddi cynigion terfynol | Cyfeirio post a / neu e-bost at holl gynrychiolwyr rhanddeiliaid gan ddarparu'r cynigion terfynol | Hysbysu rhanddeiliaid am ddiwedd yr arolwg a diolch iddynt am eu cyfranogiad | Swyddog Arolygon |

## Rhan Tri: Cynghorau Tref a Chymuned

**Amcan:** Cynnwys cynghorau tref a chymuned yn y newidiadau sy'n cael eu hystyried ar gyfer eu hardal a rhoi'r offer iddynt i gyfranogi'n adeiladol yn yr arolwg.

**Prif neges:** *Mae gan gynghorau tref a chymuned rôl allweddol yn y ffordd y mae eu cymuned yn gweithredu. Bydd y Comisiwn yn mynd ati i geisio eu barnau fel y gall sefydlu natur hunaniaethau a buddiannau cymunedol a sicrhau eu bod yn cael eu hadlewyrchu yn y trefniadau newydd.*

**Mesur llwyddiant:** Lefelau uwch o ran nifer ac ansawdd cyflwyniadau a mwy o fodlonrwydd ymhlith cwsmeriaid.

---

1. Mae cyflwyno arolwg yn effeithiol a sicrhau ansawdd effeithiol arolwg yn dibynnu, i ryw raddau, ar ymgysylltiad ac ansawdd cynrychiolaethau gan gynghorau tref a chymuned i'r Comisiwn.

2. Cred y Comisiwn mai'r bobl sy'n byw yn yr ardaloedd hynny ac yn eu cynrychioli sy'n adnabod ardaloedd lleol orau. Mae cynghorau tref a chymuned, fel y cyfryw, yn llais pwerus dros yr ardaloedd y maent yn eu cynrychioli a'r bobl sydd ynddynt.

3. Mae'r Comisiwn bob amser yn awyddus i lunio cynigion yn seiliedig ar dystiolaeth o ganlyniad i'w arolygon, a gall cynghorau tref a chymuned ddarparu cymorth allweddol i'r Comisiwn o ran darparu tystiolaeth o gysylltiadau cymunedol, neu dorri cysylltiadau, mewn ardaloedd lle mae'r Comisiwn yn gwneud cynigion.

4. Ar hyn o bryd, mae'r Comisiwn yn ymgynghori'n uniongyrchol â chynghorau tref a chymuned ym mhob ardal arolwg, fel bod eu gwybodaeth, arbenigedd a rhwydweithiau lleol yn cael y cyfle i gyfrannu ac ysgogi trafodaeth.

5. Bydd y Comisiwn yn ymgysylltu â chynghorau tref a chymuned ar ddechrau ac yn ystod y broses cynnal arolwg. Wrth gynnal arolygon etholiadol o brif ardaloedd, bydd y Comisiwn, ar ddechrau'r arolwg, yn gwahodd cynrychiolwyr o'r cynghorau tref a chymuned i fynychu briffio er mwyn rhoi gwybod iddynt am yr arolwg. Hefyd, bydd sesiwn holi ac ateb ar ddiwedd y briffio i alluogi nodi proses, effaith a chwmpas yr arolwg yn gliriach.

6. Bydd y Comisiwn yn ysgrifennu at bob cyngor tref a chymuned yn ardal yr arolwg, gan roi hysbysiad am ddechrau'r arolwg, arweiniad a hysbysiadau cyhoeddus iddynt osod ar eu hysbysfyrddau a chyfleusterau cymunedol.

7. Yn ystod pob cam o'r broses cynnal arolwg, bydd y Comisiwn yn mynd ati i ymgysylltu â chynghorau tref a chymuned ac annog cyflwyniadau yn seiliedig ar dystiolaeth ganddynt er mwyn gwella'r argymhellion y bydd y Comisiwn yn eu gwneud.

## Rhan Tri: Cynghorau Tref a Chymuned

| **Amseru / Cam yn yr arolwg** | **Gweithgaredd** | **Allbwn** | **Cyfrifol** |
|---|---|---|---|
| Cam rhagarweiniol | Cyfarfod â chynghorau cymuned | Hysbysu cynghorau cymuned am broses yr arolwg ac annog cyflwyniadau | Comisiynydd Arweiniol a'r Swyddog Arolygon |
| Dechrau'r arolwg | Cyfeirio post a / neu e-bost at yr holl gynghorau tref a chymuned gan ddarparu dogfennau arweiniad a deunydd cyhoeddusrwydd | Hysbysu cynghorau cymuned am yr arolwg ac annog cyflwyniadau | Swyddog Arolygon |
| Cyhoeddi cynigion drafft | Cyfeirio post a / neu e-bost at yr holl gynghorau cymuned gan ddarparu adroddiad y cynigion drafft a deunydd cyhoeddusrwydd | Annog cyflwyniadau | Swyddog Arolygon |
| Cyhoeddi cynigion terfynol | Cyfeirio post a / neu e-bost at yr holl gynghorau cymuned gan ddarparu'r cynigion terfynol a mapiau | Hysbysu cynghorau cymuned am ddiwedd yr arolwg, y goblygiadau iddynt hwy a'r camau nesaf | Swyddog Arolygon |

## Rhan Pedwar: Prif Gynghorau

**Amcanion:** Ennyn prif gynghorau i ddod yn gyfranogwyr gweithredol yn y broses arolygon a darparu'r arweiniad a'r cymorth angenrheidiol iddynt gyfrannu'n adeiladol at yr arolwg.

Deall a rheoli'r galw am arolygon.

**Prif neges:** *Mae'r Comisiwn yn hwylusydd gwelliant mewn llywodraeth leol gymaint ag y mae'n rheoleiddiwr. Anelwn at helpu prif gynghorau i wireddu'r cyfleoedd sydd ynghlwm wrth y broses arolygon a chyfrannu ati'n adeiladol.*

**Mesur llwyddiant:** Gwell bodlonrwydd ymhlith cwsmeriaid, arolygon wedi'u cwblhau yn brydlon heb sylwadau niweidiol yn y wasg a thrafodion adeiladol amlwg gydag arweinyddiaeth prif gynghorau.

---

1. Mae cyflwyno arolwg yn effeithiol a sicrhau ansawdd effeithiol arolwg yn dibynnu – i raddau helaeth – ar gryfder y berthynas rhwng y Comisiwn a'r prif gyngor dan sylw.

2. Bydd y Comisiwn yn dibynnu ar wybodaeth a data a ddarperir gan bob cyngor wrth lunio argymhellion. Ar gyfer arolygon etholiadol o'r prif gynghorau, mae cyflwyniadau gan y prif gynghorau yn ymwneud â chynlluniau etholiadol yn debygol o fod yn ddarnau allweddol o'r dystiolaeth yn ystod yr arolwg hefyd. Mae gan y prif gyngor rôl bwysig hefyd yn dylanwadu ar lunwyr barn allweddol eraill sy'n gysylltiedig â'r arolwg, fel Aelodau Seneddol ac Aelodau Cynulliad lleol, y cyfryngau, aelodau'r cyhoedd a chynghorau eraill. Gyda'i gilydd, fel Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, maent hefyd yn lluniwr barn ac yn gallu dylanwadu ar Weinidogion Llywodraeth Cymru, ASau ac ACau.

3. Mae ansawdd y berthynas rhwng y Comisiwn a'r prif gyngor dan sylw yn cael ei diffinio yn ystod cyfnod cynnar yr arolwg fel arfer, beth bynnag yw'r rhesymau dros ei fod yn rhan o'r rhaglen. Bydd camau gweithredu a gymerir cyn dechrau'r arolwg yn ffurfiol yn hanfodol felly o ran pennu llwyddiant neu ddiffyg llwyddiant rheolaeth y Comisiwn ar y berthynas yn y tymor hir.

4. Trwy gydol arolwg, dylai'r Comisiwn sicrhau bod ei weithredoedd yn cael eu harwain gan:

   - **Ddealltwriaeth** – y barnau, anghenion a'r cyd-destun ar gyfer gweithrediad y prif gyngor.
   - **Bod yn agored** – bod yn glir gyda'r prif gynghorau, yn ystod cyfnod cynnar, ynglŷn â gofynion y Comisiwn a'r rheolau ar gyfer cynnal yr arolwg.
   - **Hyblygrwydd** – pwysleisio y bydd y Comisiwn yn ymateb i dystiolaeth bendant ac nad oes ganddo unrhyw ragdybiaethau o ran canlyniad yr arolwg.
   - **Amlygrwydd** – bydd y comisiynwyr a staff enwebedig yn darparu arweinyddiaeth amlwg i'r arolwg ac yn ymgysylltu'n uniongyrchol â'r prif gyngor.
   - **Dibynadwyedd** – cyflawni'r hyn y mae'n ei addo yn unol â'r amserlen ac yn rhoi gwybodaeth gyson i'r cyngor am gynnydd.

5. **Lle nad yw prif gyngor wedi gofyn am arolwg,** mae mwy o bosibilrwydd y bydd yn amheugar ynglŷn â'r cyfleoedd sydd ynghlwm wrth arolwg etholiadol a gall ystyried bod ganddo flaenoriaethau mwy uniongyrchol na chyfranogi yn y broses.

6. Yn ei gyfathrebiad cychwynnol â phrif gyngor, dylai'r Comisiwn allu gwneud pedwar ymrwymiad (mae'r rhain yn seiliedig ar y berthynas yn ystod arolwg etholiadol o brif gyngor ond mae egwyddorion yr ymrwymiadau yn gymwys i bob math o arolwg):

### i) Hysbysu'n Gynnar

Dylai'r Comisiwn ymgysylltu â'r prif gyngor cyn gynted ag y bydd yn cyhoeddi ei raglen arolygon, ac yn ystod y misoedd yn arwain at ddechrau ei arolwg. Trwy gyfathrebu'n gynnar ac yn uniongyrchol ag arweinyddiaeth prif gynghorau, gall y Comisiwn gynyddu i'r eithaf y posibilrwydd o sefydlu perthynas adeiladol ar gyfer cyfnod arolwg. Mae ymgysylltu'n gynnar yn golygu hefyd y bydd prif gynghorau'n cael cyfle i roi ystyriaeth briodol i'r cyfleoedd posibl a gynigir gan arolwg etholiadol.

Dylai'r Comisiwn fod yn agored ac yn glir ynglŷn â'i ofynion yn y cam hwn, sef:

- Un man cyswllt i swyddogion yn y Comisiwn ar gyfer cysylltu trwy gydol yr arolwg;
- Un man cyswllt i gomisiynwyr yn y Comisiwn ar gyfer cysylltu trwy gydol yr arolwg;
- Gwybodaeth am grwpiau lleol i gynorthwyo'r Comisiwn wrth gyfeirio'r cyfathrebu gyda rhanddeiliaid (Gweler Rhan Dau);
- Ystadegau etholiadol cyfredol;
- Rhagolygon etholiadol a'r fethodoleg y tu ôl iddynt;
- Copïau o unrhyw offerynnau statudol neu benderfyniadau a wnaed ers yr arolwg diwethaf a allai fod yn berthnasol i'r arolwg; a,
- Chysylltiadau'r wasg a'r cyfryngau lleol i'r Swyddog Arolygon eu defnyddio i gyhoeddi'r arolwg.

### ii) Gwybodaeth ac arweiniad

Yn gyfnewid, dylai'r Comisiwn ddarparu arweiniad a chymorth – yn gynnar – a fydd yn helpu prif gynghorau i ymateb i'r ceisiadau uchod, a darparu cyngor iddynt i ymateb yn effeithiol yn ystod cam datblygu cynllun yr arolwg.

I'r perwyl hwnnw, gall y Comisiwn gryfhau ei berthynas yn ystod ei gyfarfodydd cychwynnol gydag uwch swyddogion cynghorau ac aelodau trwy ddarparu arweiniad ysgrifenedig manwl ar y cyfleoedd sydd ynghlwm â'r broses cynnal arolwg.

Mae'r Comisiwn hefyd yn darparu gwybodaeth a chyngor perthnasol i staff cynghorau er mwyn cynorthwyo'r prif gyngor i gynhyrchu cynlluniau etholiadol.

### iii) Ymgysylltu wyneb yn wyneb

Mae'r Comisiwn eisoes yn mynd ati i ymgysylltu â phrif gynghorau ar uwch lefel yng ngham rhagarweiniol yr arolwg trwy gyfarfod ag arweinwyr grŵp a gwneud cyflwyniad i'r cyngor llawn. Mewn arolygon blaenorol, lle mae arweinyddiaeth y Cyngor (Arweinydd, Prif Weithredwr ac uwch aelodau'r cyngor) wedi ymwneud â'r broses, maent wedi profi eu bod yn fwy tebygol o lawer o arwain at arolygon cadarnhaol. Mae penodi comisiynydd arweiniol ar gyfer pob arolwg yn annog cynghorau i ymgysylltu â'r broses ar lefel uchel, ac mae trefnu cyfarfodydd wyneb yn wyneb gydag uwch aelodau a staff cyn dechrau arolwg yn dangos ymrwymiad i wasanaeth personol.

### iv) Arweiniad parhaus

Yn ychwanegol at y cyfarfodydd sydd i'w cynnal yn ystod cam rhagarweiniol yr arolwg ac er mwyn adeiladu a chynnal perthnasoedd gyda phrif gynghorau trwy gydol yr arolwg, bydd

ystyriaeth yn cael ei rhoi i gynnal cyfarfodydd pellach rhwng y comisiynydd arweiniol ac uwch swyddogion y cyngor fel bo'r angen.

Bydd y Comisiwn yn monitro ymatebion yn ystod cyfnod yr arolwg a bydd yn ystyried dosbarthu negeseuon e-bost atgoffa i'r rheiny yr ystyria bod ganddynt fuddiant yn yr arolwg ac nad ydynt wedi ymateb eto.

7. Y tu allan i'r broses arolygon dylai'r Comisiwn gadw cysylltiad gyda phrif gynghorau er mwyn rhoi gwybod iddynt am y cynnydd sy'n cael ei wneud gydag arolygon presennol a manylion arolygon sydd i'w cynnal. I gynorthwyo â'r broses hon o gyfathrebu'n barhaus, bydd y Comisiwn yn cynhyrchu Cylchlythyrau rheolaidd a fydd yn rhoi diweddariadau ar yr agweddau gwahanol ar waith y Comisiwn. Bydd y rhain, ynghyd â chyhoeddiadau a chyfathrebiadau ynglŷn â phob arolwg, ar dudalen Facebook y Comisiwn ac yn cael eu trydar.

## Rhan Pedwar: Prif Gynghorau

| **Amseru / Cam yn yr arolwg** | **Gweithgaredd** | **Allbwn** | **Cyfrifol** |
|---|---|---|---|
| Yn flynyddol | Ar gyfer y Cynghorau hynny y mae arolygon i'w dechrau ynddynt yn ystod y tair blynedd nesaf, y Comisiwn yn ysgrifennu at Brif Weithredwyr yn eu hysbysu am yr amserlen a gofynion yr arolwg. | Darparu gwybodaeth er mwyn cynllunio ar gyfer arolwg sydd i ddod. | Rheolwr Arolygon |
| Un mis cyn dechrau'r arolwg yn ffurfiol | Y Comisiynydd Arweiniol, Prif Weithredwr, Rheolwr Arolygon a'r Swyddog Arolygon i gyfarfod â staff y cyngor | Briffio ar arfer gorau a darparu cyngor technegol | Comisiynydd Arweiniol, Prif Weithredwr, Rheolwr Arolygon a Swyddog Arolygon |
| Un mis cyn dechrau'r arolwg yn ffurfiol | Y Comisiynydd Arweiniol i gyfarfod ag Arweinwyr Grŵp | Sefydlu perthynas wyneb yn wyneb ac egluro cwmpas a dull yr arolwg | Comisiynydd Arweiniol, Prif Weithredwr, Rheolwr Arolygon a Swyddog Arolygon |
| Un wythnos cyn dechrau'r arolwg yn ffurfiol | Y Comisiynydd Arweiniol i wneud cyflwyniad i'r cyngor llawn | Sefydlu perthynas wyneb yn wyneb ac egluro cwmpas a dull yr arolwg | Comisiynydd Arweiniol, Prif Weithredwr, Rheolwr Arolygon a Swyddog Arolygon |
| Yn ystod pob cam ymgynghori | Bydd y Comisiwn yn monitro'r ymatebion a dderbyniwyd ac yn ystyried anfon negeseuon e-bost atgoffa i bob parti â buddiant. | Annog cyflwyniadau gan bartïon â buddiant | Comisiynydd Arweiniol a Swyddog Arolygon |
| Yn gyfnodol | Rhoi gwybod i brif gynghorau am y cynnydd sy'n cael ei wneud gydag arolygon cyfredol a manylion arolygon sydd i ddod trwy gyfrwng Cylchlythyr cyfnodol | Darparu gwybodaeth am waith arolwg a gwaith y Comisiwn yn gyffredinol | Prif Weithredwr |

## Rhan Pump: Aelodau Seneddol ac Aelodau'r Cynulliad

**Amcan:** Rhoi gwybod i Aelodau Seneddol ac Aelodau Cynulliad lleol am yr arolwg o'u hardal er mwyn lleihau camddealltwriaeth ac i wella enw da'r Comisiwn yn Nhŷ'r Cyffredin a'r Senedd.

**Prif neges:** *Mae gan y Comisiwn ddull tryloyw a buddiol o gynnal ei arolygon. Mae'n cynnwys Aelodau Seneddol ac Aelodau'r Cynulliad trwy gydol y broses ac yn mynd ati i ddatrys materion ac ymateb i ymholiadau.*

**Mesur o lwyddiant:** Nifer gynyddol o geisiadau am friffio a chynrychiolaethau yn cael eu derbyn gan ASau ac ACau.

---

1. Mae perthynas y Comisiwn gydag Aelodau Seneddol ac Aelodau'r Cynulliad yn bwysig o ran pennu llwyddiant y rhaglen arolygon. Bydd gan ASau ac ACau fuddiant ym mhob arolwg yn ogystal â bod yn ffynhonnell bosibl o dystiolaeth ansawdd uchel.

2. Mae gan lawer o ASau ac ACau berthynas agos â'u cynghorwyr lleol a grwpiau cymunedol, a disgwyliant allu siarad yn wybodus am yr arolwg a'i effaith yn lleol. Mae ASau hefyd yn debygol o fod â buddiant yn y berthynas bosibl rhwng ffiniau wardiau etholiadol newydd a threfniadau etholaethol.

3. Ar ddechrau arolwg bydd y Comisiwn yn ysgrifennu at ASau ac ACau (yn cynnwys yr ACau rhanbarthol) yn yr ardal yr effeithir arni i'w hysbysu am ddechrau'r arolwg.

4. Anfonir copïau caled o gynigion drafft a chynigion terfynol at ASau ac ACau ac fe'i hanogir i ddarparu cyflwyniadau yn ystod pob cam ymgynghori. Yn y cam cynigion terfynol, bydd y Comisiwn yn cynnig y cyfle iddynt gael cyfarfod briffio gyda'r Cadeirydd a'r Comisiynydd Arweiniol i esbonio sut y lluniodd y Comisiwn ei argymhellion.

5. Caiff ASau ac ACau gopïau o Gylchlythyr, a gynhyrchir yn gyfnodol, sy'n rhoi gwybodaeth am waith arolwg a gwaith y Comisiwn yn gyffredinol.

6. Gall monitro rheolaidd Llywodraeth Cymru helpu'r Comisiwn i ddeall y risgiau a'r cyfleoedd a allai godi. Mae dadansoddi deddfwriaeth Llywodraeth Cymru o ddydd i ddydd, datblygiadau polisi a dadleuon yn tynnu sylw'r Comisiwn at unrhyw ddatblygiadau a allai effeithio ar arolwg neu'r rhaglen arolygon, a bydd yn amlygu ardaloedd lle gallai'r Comisiwn fod eisiau cynyddu ei weithgarwch lobïo. Lle codir materion yn y Senedd yn ymwneud ag arolwg penodol, dylai'r Comisiwn fynd ati i gysylltu â'r AC(au) dan sylw i drefnu cyfarfod briffio. Os mai mater yn ymwneud â pholisi ydyw, dylai'r Comisiwn geisio cyfarfod â Gweinidog Llywodraeth Cymru. Dylai'r Comisiwn ofyn am gyfle blynyddol i ymgysylltu â Gweinidog Llywodraeth Cymru i roi briff ar waith ac uchelgeisiau'r Comisiwn (gweler Rhan Saith). Gall hefyd fod yn briodol i Gadeirydd y Comisiwn gyfarfod â Gweinidog Llywodraeth Cymru ar achlysuron eraill.

## Rhan Pump: Aelodau Seneddol ac Aelodau'r Cynulliad

| Amseru / Cam yn yr arolwg | Gweithgaredd | Allbwn | Cyfrifol |
|---|---|---|---|
| Ar ddechrau'r arolwg | Cyfeirio post a / neu e-bost at yr holl ASau ac ACau yr effeithir arnynt gan ddarparu dogfennau arweiniad a deunydd cyhoeddusrwydd | Hysbysu am arolwg ac annog cyflwyniadau | Swyddog Arolygon |
| Yn ystod cam drafft yr arolwg | Cyfeirio post a / neu e-bost at yr holl ASau ac ACau yr effeithir arnynt gan ddarparu'r adroddiad cynigion drafft | Annog cyflwyniadau | Swyddog Arolygon |
| Yn ystod cam terfynol yr arolwg | Cyfeirio post a / neu e-bost at yr holl ASau ac ACau yr effeithir arnynt gan ddarparu'r adroddiad cynigion terfynol a chynnig sesiwn friffio gyda'r Cadeirydd a'r Comisiynydd Arweiniol | Hysbysu am ddiwedd arolwg, y goblygiadau a'r camau nesaf | Cadeirydd, Comisiynydd Arweiniol, Rheolwr Arolygon a Swyddog Arolygon |
| Yn flynyddol | Cynnig sesiwn friffio gyda Gweinidog Llywodraeth Cymru | Hysbysu'r Gweinidog am waith y Comisiwn a thynnu sylw at gyflawniadau cadarnhaol a chynlluniau'r dyfodol | Cadeirydd, Prif Weithredwr |
| Yn gyfnodol | Hysbysu am y cynnydd sy'n cael ei wneud gydag arolygon cyfredol a manylion arolygon sydd i ddod trwy gyfrwng Cylchlythyr cyfnodol | Darparu gwybodaeth am waith arolwg a gwaith y Comisiwn yn gyffredinol | Prif Weithredwr |
| Yn barhaus | Monitro deddfwriaeth, dadleuon y Senedd, cwestiynau a'r cyfryngau | Rhybudd cynnar am faterion a barnau sy'n debygol o effeithio ar awdurdodau lleol a gwaith y Comisiwn | Prif Weithredwr |

## Rhan Chwech: Cyrff Cynrychiadol Llywodraeth Leol

**Amcan:** Hyrwyddo gwerth gwaith y Comisiwn fel corff annibynnol, rhoi gwybod i brif gynghorau, cynghorau tref a chymuned am y cyfleoedd sydd ynghlwm wrth y rhaglen arolygon a chael cipolwg ar y meddwl a'r materion diweddaraf sy'n wynebu llywodraeth leol yng Nghymru.

**Mesur o lwyddiant:** Ymgysylltu'n gadarnhaol mewn ymgynghoriadau, adborth cadarnhaol yn yr holiaduron ar ôl arolwg ac adborth cadarnhaol gan gyrff cynrychiadol llywodraeth leol.

---

1. Mae gan lywodraeth leol yng Nghymru rwydweithiau cadarn a dylanwadol. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), er enghraifft, yn cynrychioli barnau prif gynghorau i'r llywodraeth ac yn cydlynu cynghorau ar bob haen o lywodraeth leol. Mae'r grwpiau allweddol yn y gymuned llywodraeth leol ehangach yn cynnwys:

   - Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
   - Un Llais Cymru a chyrff eraill sy'n cynrychioli cynghorau cymuned a thref
   - Cymdeithas Prif Weithredwyr ac Uwch-reolwyr Awdurdodau Lleol (SOLACE)
   - Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol.

**Hysbysu**

2. Ym mis Hydref 2011, ysgrifennodd y Comisiwn at bob prif gyngor yng Nghymru a chyrff cynrychiadol mewn ymgynghoriad ar arweiniad newydd ar gyfer arolygon etholiadol. Ym mis Mawrth 2012 cyhoeddodd y Comisiwn yr ymateb i'r ymgynghoriad hwn ac arweiniad o'r enw Arolygon Etholiadol: Polisi ac Arfer.

3. Rhwng mis Mai 2012 a mis Mehefin 2013 cynhaliodd y Comisiwn ddau ymgynghoriad ynglŷn â methodoleg ar gyfer pennu maint cynghorau i'w ddefnyddio fel rhan o arolwg etholiadol. Cynhwyswyd canlyniad yr ymgynghoriad hwn mewn dogfen newydd Arolygon Etholiadol: Polisi ac Arfer a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2013.

**Ymgysylltu**

4. Mae cyrff cynrychiadol llywodraeth leol wedi'u cynnwys yn y rhestr o sefydliadau yr ymgynghorir â nhw yn ystod arolygon. Mae eu cyfranogiad yn y broses arolygon yn cael ei groesawu gan y Comisiwn.

5. Bydd y Comisiwn yn mynd ati i ymgysylltu'n barhaus gyda chyrff cynrychiadol llywodraeth leol i'w hysbysu am y gwaith yn ymwneud ag arolygon a gwaith y Comisiwn yn gyffredinol. I gynorthwyo â'r broses hon o gyfathrebu'n barhaus, bydd y Comisiwn yn cynhyrchu Cylchlythyrau rheolaidd a fydd yn rhoi diweddariadau am yr agweddau gwahanol ar waith y Comisiwn.

## Rhan Chwech: Cyrff Cynrychiadol Llywodraeth Leol

| **Amseru** | **Gweithgaredd** | **Allbwn** | **Cyfrifol** |
|---|---|---|---|
| Yn flynyddol | Cyhoeddir adroddiad blynyddol ac fe'i hanfonir at bob awdurdod lleol i adrodd yn ôl ar weithgarwch yn ystod y flwyddyn a chyflwyno cyflawniadau cadarnhaol | Rhoi gwybod i awdurdodau am agweddau cadarnhaol ar weithio gyda'r Comisiwn | Prif Weithredwr |
| Yn gyfnodol | Cyfarfod ag uwch swyddogion y cyrff cynrychiadol.<br><br>Rhoi gwybod am y cynnydd sy'n cael ei wneud gydag arolygon cyfredol a manylion arolygon sydd i ddod trwy gyfrwng Cylchlythyr cyfnodol | Darparu gwybodaeth am waith yn ymwneud ag arolygon a gwaith y Comisiwn yn gyffredinol | Prif Weithredwr |

## Rhan Saith: Llywodraeth Cymru

**Amcan:** Cyflwyno cynigion arolwg y Comisiwn ac ymateb i'r ymgynghoriad ar bolisi a deddfwriaeth Llywodraeth Cymru wrth iddo ddatblygu

**Mesur o lwyddiant:** Cytuno cynigion yr arolwg, 'dim pethau annisgwyl' ar ddatblygu polisi.

---

1. Mae Is-adran Democratiaeth, Moeseg a Phartneriaeth Llywodraeth Cymru yn sefydliad partner dylanwadol i'r Comisiwn. Mae'n gyfrifol am:

   - Ariannu'r Comisiwn
   - Penodi Comisiynwyr
   - Penodi Prif Weithredwr y Comisiwn
   - Deddfwriaeth yn ymwneud â gwaith y Comisiwn.
   - Y Gweinidog sy'n gyfrifol am ystyried cynigion arolwg y Comisiwn
   - Bydd ei agenda polisïau yn effeithio ar yr amgylchedd y mae'r prif gynghorau yn gweithredu ynddo.

2. Yr Is-adran Democratiaeth, Moeseg a Phartneriaeth sy'n gyfrifol am hyrwyddo a gweinyddu'r rhan fwyaf o'r ddeddfwriaeth yn ymwneud â gwaith y Comisiwn. Hon oedd y brif isadran a oedd yn gyfrifol am Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 y rhoddwyd Cydsyniad Brenhinol iddi yn ddiweddar, gan aildrefnu cyfansoddiad y Comisiwn ac ailysgrifennu'r rheolau a'r prosesau'n ymwneud ag arolygon o drefniadau etholiadol yng Nghymru.

3. Yn ogystal â sicrhau bod yr Is-adran Democratiaeth, Moeseg a Phartneriaeth yn cael ei chynnwys yn ffurfiol yn yr holl ymarferiadau ymgynghori a gwaith datblygu polisi'r Comisiwn, mae patrwm sefydledig o gyfarfodydd ffurfiol chwarterol a hefyd cyfarfodydd anffurfiol gydag aelodau staff allweddol i alluogi diwylliant o 'ddim pethau annisgwyl' a galluogi codi materion fel penodiadau comisiynwyr yn gynnar.

4. Fel yr is-adran noddi ar gyfer y Comisiwn, mae'r Is-adran Democratiaeth, Moeseg a Phartneriaeth yn gyfrifol am brosesu cais misol am Gymorth Grant. Mae sefyllfa ariannol y Comisiwn yn cael ei hadrodd hefyd i'r cyfarfodydd cysylltu.

## Rhan Saith: Llywodraeth Cymru (Is-adran Democratiaeth, Moeseg a Phartneriaeth)

| **Amseru / Cam yn yr arolwg** | **Gweithgaredd** | **Allbwn** | **Cyfrifol** |
|---|---|---|---|
| Yn fisol | Cais am gymorth grant | Cyllid wedi'i drosglwyddo i gyfrif y Comisiwn | Rheolwr Cyllid |
| Yn chwarterol | Cyfarfodydd cyswllt gyda staff allweddol yr Is-adran Democratiaeth, Moeseg a Phartneriaeth gan gynnwys adroddiad ar gynnydd tuag at fodloni targedau allweddol yn y Cynllun Gweithredol | Rhoi gwybodaeth gyson i'r Is-adran Democratiaeth, Moeseg a Phartneriaeth am waith a sefyllfa ariannol y Comisiwn, a rhoi gwybodaeth gyson i'r Comisiwn am gynnydd Llywodraeth Cymru o ran gwneud Gorchmynion | Prif Weithredwr, Rheolwr Arolygon a Rheolwr Cyllid |
| Yn flynyddol | Gofyn am gyfarfod gyda'r Gweinidog | Diweddaru'r Gweinidog ar nodau'r Comisiwn a thrafod cynlluniau'r llywodraeth yn y dyfodol | Prif Weithredwr |
| Yn flynyddol | Cyflwyno'r Cynllun Gweithredol i'r Is-adran Democratiaeth, Moeseg a Phartneriaeth ei gymeradwyo | Mae'r Cynllun Gweithredol yn cael ei ddrafftio ar ôl derbyn Llythyr Cylch Gwaith y Gweinidog. Caiff y Cynllun ei gytuno gan y Comisiwn cyn ei gyflwyno | Prif Weithredwr |
| Bob tair blynedd | Cyflwyno'r Cynllun Corfforaethol wedi'i ddiweddaru i'r Is-adran Democratiaeth, Moeseg a Phartneriaeth ei gymeradwyo | Mae'r Cynllun Corfforaethol yn cael ei ddiweddaru a'i gytuno gan y Comisiwn cyn ei gyflwyno | Prif Weithredwr |
| Yn barhaus | Cyfarfodydd anffurfiol gyda staff allweddol yr Is-adran Democratiaeth, Moeseg a Phartneriaeth | Codi materion yn gynnar ac osgoi pethau annisgwyl | Prif Weithredwr |

## Rhan Wyth: Monitro a Gwerthuso

**Amcan:** Rhoi gwybod i'r Comisiwn am effeithiolrwydd ei ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd, barnau ei gwsmeriaid a maint y dystiolaeth a gynhyrchwyd gan gynulleidfaoedd targed.

---

**Cyhoeddusrwydd**

1. Ar hyn o bryd nid oes gan y Comisiwn unrhyw ddull ffurfiol o olrhain straeon yn y wasg leol na monitro gweithgarwch ar y rhyngrwyd e.e. blogiau a ffynonellau newyddion ar-lein yn unig. Caiff gwaith olrhain anffurfiol ei wneud gan staff sy'n defnyddio Google News.

2. Mae metrigau olrhain wedi'u hintegreiddio yn nyluniad gwefan y Comisiwn. Gall hyn ddarparu gwybodaeth fel nifer yr ymwelwyr.

3. Ar gyfer pob arolwg, mae'r Comisiwn yn cadw cronfa ddata o gynrychiolaethau a dderbyniwyd yn ystod pob cam o'r arolwg. Mae'n bosibl felly rhoi cyfrif cywir am nifer y cynrychiolaethau, ac felly mesur y diddordeb cyhoeddus a gynhyrchwyd gan arolwg penodol (neu gam o arolwg).

4. Mae'r Comisiwn hefyd yn cadw cronfa ddata o ddata a gynhyrchwyd o offer dadansoddol ar gyfer ein tudalennau cyfryngau cymdeithasol. Mae modd felly monitro a mesur diddordeb rhanddeiliaid yn ein harolygon a'r Comisiwn yn gyffredinol.

**Bodlonrwydd cwsmeriaid**

5. Yn dilyn pob arolwg mae'r Comisiwn yn cyhoeddi arolwg ar-lein i asesu bodlonrwydd rhanddeiliaid. Caiff yr arolwg hwn ei asesu gan uwch swyddogion y Comisiwn a'i adrodd i'r Comisiynwyr.

6. At hynny, mae'r Comisiwn yn cyhoeddi arolwg ar-lein yn flynyddol i asesu bodlonrwydd rhanddeiliaid â pherfformiad a phrosesau cyffredinol y Comisiwn. Caiff yr arolwg hwn ei asesu gan uwch swyddogion y Comisiwn a'i adrodd i'r Comisiynwyr.

**Arfer Gorau**

7. Mae'r Comisiwn yn cysylltu'n rheolaidd â Chomisiynau Ffiniau eraill y DU er mwyn dysgu sut mae cyrff tebyg yn cyflawni eu dyletswyddau ymgynghori ac ym mha ffyrdd y maent yn rheoli eu perthnasoedd gyda sefydliadau partner. Lle bydd enghreifftiau o arfer gorau'n cael eu nodi, gellir mabwysiadu'r rhain wedyn.

## Adolygu'r Strategaeth

Bydd y Strategaeth Gyfathrebu hon yn cael ei hadolygu flwyddyn ar ôl ei chyhoeddi gyntaf (Ionawr 2015) i gychwyn, ac yna bob dwy flynedd.

**Dyddiad Cyhoeddi: Ionawr 2014**